

**Yn dilyn Cymryd Te
a gweithiau eraill**

**After the Taking of Tea
and other works**

Charlotte Hodes



Rhagarweiniad

Mae Charlotte Hodes yn ein gwahodd i rannu taith drwy ei harchif o batrymau tsieni bob dydd. Mae'r rhan fwyaf ohonom ag atgofion sy'n ymwneud â phatrwm. Y patrymau a welsom ar blatiau tsieni, fel y rheiny y byddem yn bwyta cacennau oddi arnynt pan aem i ymweld â nain a taid pan oeddem yn blant bach. Rydym yn cofio patrymau papur wal, chintz patrymog afieithus llenni a chlustogau: atgofion gweledol arhosol o le, yn magu cyd-destun ein hanes teuluol. Gall rhan helaeth o hyn droi o gwmpas te: yfed te, te prynhawn, te partis. Digwyddiadau pan fyddid yn mynd â'r Tsieni gorau o'r dresel hollbresennol a'u rhoi ar y bwrdd: traddodiad Prydeinig. Yma mae Charlotte Hodes yn archwilio *Yn dilyn Cymryd Te* ac yn mynd â ni ar daith weledol anghyffredin o batrwm a phlatiau o atgofion. Llawenydd y beunyddiol yn amlwg iawn.

Philip Hughes, Cyfarwyddwr, Canolfan Grefft Rhuthun
Ionawr 2019

Introduction

Charlotte Hodes invites us to share a journey through her archive of everyday china patterns. Most of us have memories relating to pattern. The patterns we saw on china plates such as those we consumed cake off when we went to visit our grandparents as small children. We remember the patterns of wallpapers, the exuberant patterned chintz of curtains and cushions: the abiding visual memories of place, nurturing the context of our familial histories. Much of this can revolve around tea: drinking tea, afternoon tea, tea parties. Events when the best China would be taken from the ubiquitous dresser and placed on the table: a British tradition. Here Charlotte Hodes explores *After the Taking of Tea* and takes us on an extraordinary visual journey of pattern and plates of memories. The joy of the everyday writ large.

Philip Hughes, Director, Ruthin Craft Centre
January 2019

Yn dilyn Cymryd Te a gweithiau eraill

Jygiâu, platiâu, powlenni, cwpanau te – y gwrthrychau cartref hyn yw cydrannau gosodweithiau Charlotte Hodes. Bydd yn cymryd llestri pob dydd cyffredin, wedi'u prynu ar-lein, ac yn trawsffurfio'r darnau gyda gludweithiau cymhleth o ffurfiau benywaidd, darnau addurniadol a thameidiau o destun. Bydd y ffurfiau a'r patrymau'n gwau eu ffordd o gwmpas y naill a'r llall ac ar draws y gwahanol ddarnau o tsieni, yn llifo'n aml o un i'r nesaf, gyda'r ffurfiau'n atseinio ar draws yr ystafell. Daw'r ddelweddaueth o ffynonellau mor amrywiol ag engrafiadau archif Ymddiriedolaeth Amgueddfa Spode, celfyddyd Ffrengig y 18fed ganrif, templedi patrwm papur a thoriadau bob dydd. Yr un yw ei diddordeb mewn patrwm, ffurf a lliw, waeth pa arwyneb y bydd yn ei ddewis: daw llestri tsieni'n gyfnas i'w meddyliau a bydd llawer o'r un delweddau'n ailymddangos yn y toriadau papur ar raddfa fawr. Dyma osodwaith mwyaf Hodes hyd yma a dangosiad cyntaf y gwaith 250-rhan *Yn dilyn Cymryd Te*. Mae'n drawsffurfio ad o'r cyffredin i'r anghyffredin.

Ann Jones, Curador, Casgliad y Cyngor Celfyddydau
Ionawr 2019

Mae Charlotte Hodes yn Athro mewn Celfyddyd Gain yng Ngholeg Ffasiwn Llundain. Mae wedi arddangos yn eang, gyda sioeau solo nodedig yn y 'Wallace Collection', Llundain, Oriol Gelf Wolverhampton ac Amgueddfa Bowes. Fe enillodd wobwr arlunio Jerwood yn 2006 ac mae wedi ymgymryd â phreswyliaid yn Spode a'r Stiwdio Clai, Philadelphia. Canlyniad ei chydweithredu â'r bardd Cymreig Deryn Rees-Jones yn Lerpwl yw nifer o animeiddiadau a byddant yn gweithio gyda'i gilydd eto'r hydref hwn yn Oriol Victoria, Lerpwl.

After the Taking of Tea and other works

Jugs, plates, bowls, teacups – these domestic objects are the components of Charlotte Hodes's installations. She takes ordinary, everyday crockery, purchased online, and transforms the pieces with intricate collages of female figures, decorative snippets and fragments of texts. The figures and patterns weave their way around each other and across the various pieces of china, often flowing from one to the next, with shapes echoing across the room. The imagery is drawn from sources as various as the Spode Museum Trust archive of engravings, 18th-century French art, paper pattern templates and everyday clippings. Her interest in pattern, form and colour is the same regardless of which surface she selects: china vessels become a canvas for her thoughts and many of the same images reappear in the large-scale papercuts. This is Hodes's largest installation to date and the first showing of the 250-part work *After the Taking of Tea*. It is a transformation of the ordinary into the extraordinary.

Ann Jones, Curator, Arts Council Collection
January 2019

Charlotte Hodes is Professor in Fine Art at London College of Fashion. She has exhibited widely, with notable solo shows at the Wallace Collection, London, Wolverhampton Art Gallery and the Bowes Museum. She won the 2006 Jerwood drawing prize and has undertaken residencies at Spode and the Clay Studio, Philadelphia. Her collaborations with the Liverpool-based Welsh poet Deryn Rees-Jones have resulted in several animations and they will work together again this autumn at the Victoria Gallery, Liverpool.





Yn dilyn Cymryd Te
After the Taking of Tea

Yn dilyn Cymryd Te, 2019

Troslun enamel wedi'i dorri â llaw ar 251 o ddarnau o lestri tsieni dros wyneb bwrdd 1400 x 122cm ar sidan cotwm wedi'i brintio'n ddigidol ac yn 17 metr yn ei hyd.

Mae *Yn dilyn Cymryd Te* yn cyflwyno grwpiau lluosog o lestri tsieni lle mae'r ddelweddau yn chwarae â chysyniadau o de ac amser te, ei bwysigrwydd hanesyddol mewn cymdeithas foesgar a'i rôl gyfoes lle bydd ffurfioldeb wedi'i ddymchwel gan fwyaf. Mae'r merched yn ymddangos i herio'n chwareus confensiynau hanesyddol. Maent yn sefyll ar deotiau, yn defnyddio hidlyddion te fel drychau a microffonau, ac yn cerdded yn ddifater ar draws arwynebau o lestri te neu'n gorffwys arnynt. Caiff y lliw, y defnydd o aur ac addurniad ei oleuo gan salonau mawreddog y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r testun yn ymddangos o gwmpas rhai o ymylon y llestri, fel nodau achlysurol sy'n cyfeirio at lenyddiaeth, gwleidyddiaeth ac economeg te.

After the Taking of Tea, 2019

Hand-cut enamel transfer on 251 pieces of china tableware across a table surface 1400 x 122cm on digitally printed cotton satin running 17 metres.

After the Taking of Tea presents multiple groupings of china ware on which the imagery plays with notions of tea and teatime, its historical importance in polite society and its contemporary role in which formality for the most part has been overturned. The women make an appearance to playfully defy historical conventions. They stand on teapots, use tea sieves as mirrors and microphones, and nonchalantly walk across or rest upon the surfaces of tea crockery. The colour, use of gold and ornamentation is informed by the grand salons of the eighteenth and nineteenth century. The texts appear around some of the edges of the ware, as incidental notes that reference literature, politics and the economics of tea.














Yn dilyn Cymryd Te; Cysgod Golau After the Taking of Tea; Light Shadow

Yn dilyn Cymryd Te; Cysgod Llwyd After the Taking of Tea; Grey Shadow

Yn Dilyn Cymryd Te; Cysgod Golau, 2018

Toriad Papur, 55 x 72cm

Yn Dilyn Cymryd Te; Cysgod Llwyd, 2018

Toriad Papur, 55 x 72cm

Mae'r ddau doriad papur hyn a wnaethpwyd ochr-yn-ochr â'r gosodiad serameg, yn cymryd brwsh y cartref fel yr ymgyrchwr. Bydd yn ysgubo ymaith weddillion bywyd dyddiol, yn yr achos hwn y cwpanau te, y llwyau a'r soseri, ac yn eu datgelu. Mae hefyd yn fath o hudlath sy'n animeiddio drwy daflu golau ar thema sydd, fel arall, yn gyffredin. Mae'r broses fanwl o ludwaith crefft llaw'n pwysleisio'r ymdeimlad fod y cyfanwaith wedi'i wneud o ddarnau bregus a ddelir wrth ei gilydd am gyfnod byr yn unig. Yn *Cysgod Golau*, mae'r wraig yn adlewyrchu ar y llanastr o'i chwmpas, ond mae'n amlwg nad yw am wneud dim yn ei gylch ac yn *Cysgod Llwyd* mae'n crwydro allan o'r llun gan adael cynffon o lanestr o'i hól.

After the Taking of Tea; Light Shadow, 2018

Papercut, 55 x 72cm

After the Taking of Tea; Grey Shadow, 2018

Papercut, 55 x 72cm

These two papercuts made alongside the ceramic installation, take the household brush as the protagonist. It both brushes aside the remnants of daily life, in this case the tea cups, spoons and saucers, and reveals them. It is also a kind of magic wand that animates by throwing light upon an otherwise banal theme. The handcrafted detailed process of collage emphasises the sense that the whole is made up of fragile parts that are only momentarily held together. In *Light Shadow*, the woman reflects the mess around her, but is obviously not going to do anything about it and in *Grey Shadow* she wanders of out of the picture, leaving a trail behind her.







Cofiwch Fi
Remember Me

Cofiwch Fi, 2017

Troslun enamel wedi'i dorri â llaw ar 122 o ddarnau tsieni
ar finyl printiedig
1185 x 110cm

Fe gomisiynwyd *Cofiwch Fi* gan Oriol Gelf Wolverhampton ac fe'i dangoswyd yn gyntaf yn yr Oriol yn 2017. Mae'r platau serameg wedi'u trefnu ar hyd wal i greu delwedd sengl ar arwyneb patrymog ac yno bydd y patrwm yn dianc oddi wrth y platau ac ar y 'papur wal' a bydd y platau'n llythrennol yn dianc oddi ar y papur wal ym mhob pen. Mae'r platau'n gweithredu fel cynfas gwahanol, yn cyfeirio at y traddodiad o hongian platau addurniadol ar waliau'r cartref. Fel hyn bydd y gwaith yn dyrchafu'r ymarferol, y cyffredin a'r cyfarwydd i herio statws arlunio celfyddyd gain. Mae'r teitl, *Cofiwch Fi*, yn atgyfeirio galarnad Dido am ei marwolaeth sydd i ddod yn opera Purcell, *Dido ac Aeneas*. Yma, mae yna wrthgyferbyniad hollol rhwng ansawdd arallfydol nefolaidd y miwsig a'r libreto sy'n sôn am y byd ffisegol, daear o dywyllwch y mae hi i'w chladdu ynddi cyn hir. Fe ddarlunnir y merched yng ngosodiad Charlotte yn symud ar draws, dros a than lestri, yn ymddangos ac yn diflannu yn y tirlun patrymog. Mewn ffordd debyg, mae yna densiwn rhwng ffisegoliaeth y deunydd seramig ac arwynebau hynod batrymog, a byrhoedledd y merched sy'n mynd heibio dros arwyneb y llestr ac allan, fel petai i fyd arall.

Remember Me, 2017

Hand-cut enamel transfer on 122 pieces of china ware
on printed vinyl
1185 x 110cm

Remember Me was commissioned by Wolverhampton Art Gallery and first shown at the Gallery in 2017. The ceramic plates are arranged across a wall to create a single image on a patterned surface, in which the pattern escapes the plates onto the 'wallpaper' and the plates literally escape the wallpaper at each end. The plates serve as an alternative canvas, referencing the tradition of hanging decorative plates on the walls of the home. In this way, the work elevates the functional, everyday and familiar to challenge the status of fine art painting. The title, *Remember Me*, references Dido's lament for her pending death in Purcell's opera, *Dido and Aeneas*. Here, there is a stark contrast between the ethereal otherworld quality of the music and the libretto that speaks of the physical world, an earth of darkness in which she is soon to be buried. The women in Charlotte's installation are depicted moving across, over and under vessels, appearing and disappearing in the patterned landscape. In a similar way, there is a tension between the physicality of the ceramic material and highly patterned surfaces, and the transience of the women who momentarily pass across the surface of the ware, and out, as if into another world.







Hunan, teithiau Self, travels

Hunan, teithiau, 2019

Trosllun enamel gwydrog wedi'i dorri â llaw, olew, acrylig ar blatiau tsieni 20 x 20cm, 35 x 27cm a phren 80 x 60cm a bocs cerdyn 31 x 31 x 23cm.

Hunan, teithiau yw un o gyfres o baentiadau, wedi'u hysbrydoli gan *Tanau*, a ysgrifennwyd gan y bardd Deryn Rees-Jones yn 2017.

Traethawd telynegol yw Tanau sy'n lleisio darnau o feddwl a chof. Wrth i ddynes grwydro drwy'r dirwedd a gofod tudalen wag bydd syniadau o'r hunan yn llithro i mewn ac allan o ymwybyddiaeth wrth iddi feddwl am ei pherthynas ag iaith, a'r hyn y mae ysgrifennu barddoniaeth yn ei olygu.
Deryn Rees-Jones

Bardd a beirniad yw Deryn Rees-Jones ac mae'n byw ac yn gweithio yn Lerpwl. Fe fu'n cydweithio â Charlotte Hodes ar nifer o brosiectau delwedd a thestun ers 2014. Er bod Rees-Jones wedi byw rhan helaeth o'i bywyd yn Lerpwl, fe dreuliodd ysbeidiau hir o'i phlentyndod yn y cartref teuluol yn Eglwysbach yng Ngogledd Cymru ac mae'n ei hystyried ei hun yn ysgrifennwr Cymreig. Cafodd ei haddysgu ym Mhrifysgol Bangor, Coleg Birkbeck, Prifysgol Llundain. Mae'n Athro Barddoniaeth ym Mhrifysgol Lerpwl ac yn olygydd y gyfres newydd *Pavilion Poetry* ar gyfer Gwasg Prifysgol Lerpwl.

Self, travels, 2019

Hand-cut & glazed enamel transfer, oil, acrylic on china plates, 20 x 20cm, 35 x 27cm. Wood 80 x 60cm. Card box 31 x 31 x 23cm.

Self, travels is one of a series of paintings, inspired by *Fires*, written by poet Deryn Rees-Jones in 2017.

Fires is a lyric essay which voices fragments of thought and memory. As a woman wanders through a landscape and the space of a blank page ideas of self slip in and out of consciousness as she thinks about her relationship to language, and what it means to write poetry. Deryn Rees-Jones

Deryn Rees-Jones is a poet and critic who lives and works in Liverpool. She has been collaborating with Charlotte Hodes on a number of image and text projects since 2014. Although, Rees-Jones has lived much of her life in Liverpool, she spent long stretches of childhood in the family home of Eglwysbach in North Wales and she thinks of herself as a Welsh writer. She was educated at Bangor University, and Birkbeck College, University of London. She is Professor of Poetry at the University of Liverpool, and is the editor of the new *Pavilion Poetry* series, for Liverpool University Press.





**Coed Spode a Silwetau mewn Gwisg
Spode Trees and Dressed Silhouettes**



Tudalennau / Pages 42-43

Tudalennau / Pages 44-45

Coed Spode a Silwetau mewn Gwisg, 2015

346 o ddarnau o llestri tsieni gyda throsoluniau enamel wedi'u torri â llaw ac wedi'u rhoi ar 156 o ddarnau, wedi'u gosod ar draws bwrdd 732 x 122 x 70cm ar satin cotwm wedi'i argraffu'n ddigidol yn rhedeg yn 12 metr.

Wedi'i gomisiynu a'i ddangos y tro cyntaf yn y 'British Ceramic Biennial' yn 2015.

Fe ysbrydolwyd *Coed a Silwetau Spode mewn Gwisg* gan ymchwil yn archif engrafiadau copr Ymddiriedolaeth Amgueddfa Spode, y patrymau chintz yn arbennig a'r tirluniau sy'n ffurfio llestri trosluniau glas cyfarwydd Spode. O'r ffynhonnell hon, fe aethpwyd â darnau dewisol o ddelweddaeth a thestunau printiedig drwy lawer o ailadroddiadau a'u defnyddio fel deunydd 'collage' ar gyfer y ddelweddaeth.

Mae trefniant y llestri bwrdd yn awgrymu canlyniad parti cinio, lle mae'r gwahoddedigion wedi ymadael. Nid yw'r merched yn ymgymryd â chlirio'r llestri na'u golchi. Maent yn ymlwybro ar draws y llestri, fel petaent ar hap yn eu darganfod eu hunain yn y dirwedd hon, yn animeiddio ac yn aflonyddu'r arwynebau patrymog.

Spode Trees and Dressed Silhouettes, 2015

346 pieces of china tableware with hand-cut enamel transfers applied to 156 pieces, laid out across a table 732 x 122 x 70cm on digitally printed cotton satin running 12 metres.

First commissioned by and shown at the British Ceramic Biennial in 2015.

Spode Trees and Dressed Silhouettes was inspired by research at the Spode Museum Trust archive of copper engravings, in particular the chintz patterns and landscapes that form the familiar Spode blue transferware. From this source, selected fragments of printed imagery and texts were taken through many iterations and used as collage material for the imagery.

The arrangement of the tableware suggests the aftermath of a dinner party, where the guests have departed. The women are not engaged with clearing the dishes or washing up. They nonchalantly make their way across the ware, as if they by chance find themselves in this landscape, animating and disrupting the patterned surfaces.











Ffrîs
Frieze



Tudalennau / Pages 48-49



Tudalen / Page 52



Tudalen / Page 53

Ffris, 2017

Papurau wedi'u printio, eu paentio a'u torri à llaw

86.5 x 301cm

Mae *Ffris* yn adeiladu ar y syniadau a gyflwynwyd yn y gosodwaith mur *Cofiwch Fi* gan ddefnyddio gofod bas lle mae'r merched yn ymlwybro. Siâp gwag yw'r wraig sydd fel caryatid ar y chwith. Mae hi eisoes wedi ymadael â'i rôl fel cynhalydd pensaernïol. Fe ddiffinnir y merched gan y patrwm ac y maent yn dianc rhagddo, tra bo eraill yn morffio rhwng corff, gwisg a phensaernïaeth.

Frieze, 2017


Hand-cut printed & painted papers

86.5 x 301cm

Frieze builds on the ideas presented in the wall installation *Remember Me* using a shallow space in which the women make their way. The caryatid-like woman on the left is an empty shape, she has already departed from her role as architectural support. The women are defined by and escape the pattern, whilst others morph between body, dress and architecture.







Yn dilyn Cymryd Te a gweithiau eraill

Dydd Sadwrn 2 Chwefror – Dydd Sul 31 Mawrth 2019

After the Taking of Tea and other works

Saturday 2 February – Sunday 31 March 2019

Canolfan Grefft Rhuthun	Ruthin Craft Centre,
Y Ganolfan i'r Celfyddydau Cymhwysol	The Centre for the Applied Arts
Heol y Parc, Rhuthun	Park Road, Ruthin
Sir Ddinbych, LL15 1BB	Denbighshire, LL15 1BB

Curadur / Curator: Gregory Parsons

Logisteg Arddangosfa / Exhibition Logistics: Art Works Exhibition Services Ltd

Fotograffieath/ Photographers: Tudalennau / Pages

Stephen Heaton: 2, 5 top chwith & chanol dde, 6-19, 33

2, 5 top left & centre left, 6-19, 33

Peter Abrahams: 5 top chwith, 21-23

5 top right, 21-23

Joel Chester Fildes: 5 is chwith & is dde, 24-31, 34-43

5 lower left & lower right, 24-31, 34-43

Nicola Lorini: 5 canol dde, 44-51

5 centre right, 44-51

Cyfieithiad / Translation: Catherine Lowe

Dylunio Catalog / Catalogue Design: Roger Walton Studio

Agraffu gan / Printed by: Akcent Media Limited

Fe'i cyhoeddwyd y tro cyntaf yn y DU yn 2019 gan Ganolfan Grefft Rhuthun

First Published in the UK in 2019 by Ruthin Craft Centre

Dymuna Charlotte Hodes ddiolch i Philip Hughes, Cyfarwyddwr, Canolfan Grefft Rhuthun ac staff CGR am eu gweledigaeth a'u brwdfrydedd; Nicky Munyama yng Ngholeg Ffasiwn Llundain, UAL ar gyfer gwireddu'r tecstilau, Naomi Bailey yn Central St Martins, UAL a Lily Savill ar gyfer cymorth ceramig; Nicola Lorini ar gyfer TG; Paul Coldwell, Andrea Harari, Cecelia Johnson, Ann Jones a Deryn Rees-Jones.

Charlotte Hodes would like to thank Philip Hughes, Director, Ruthin Craft Centre and RCC staff for their vision and enthusiasm; Nicky Munyama at London College of Fashion, UAL for the realisation of the textiles, Naomi Bailey at Central St Martins, UAL & Lily Savill for ceramic support; Nicola Lorini for IT; Paul Coldwell, Andrea Harari, Cecelia Johnson, Ann Jones and Deryn Rees-Jones.

Delweddau / Images © Charlotte Hodes

Testun / Texts © Philip Hughes, Ann Jones 2019

ISBN 978-1-905865-97-0

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei ailargraffu, ei atgynhyrchu, ei storio mewn system adalw, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddulliau mecanyddol electronig, llungopïo, recordio neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr ymlaen llaw.

All rights reserved. No part of this publication may be reprinted, reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted in any form or by any means electronic mechanical, photocopy, recording or otherwise without prior written permission of the publishers.

